Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**NAFWC 2014 (Papur 6)**

**Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn**

**Dyddiad: 14 Mawrth 2011**
**Amser: 17.00**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B**
**Enw a rhif cyswllt yr awdur: Claire Clancy, est 8233**

# Adroddiad y Bwrdd Rheoli i Gomisiwn y Cynulliad – Mawrth 2011

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

**Mae adroddiad y Bwrdd Rheoli y mis hwn yn cael ei gyflwyno mewn fformat gwahanol er mwyn canolbwyntio'n bennaf ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn a chael barn am waith sy'n mynd ymlaen cyn diddymu'r Cynulliad ar 1 Ebrill.**

**1.1 Pleidleisiwch 2011**

**Lansiwyd ymgyrch i hyrwyddo ac ehangu ymgysylltu â datganoli a'r broses ddemocrataidd ym mis Gorffennaf 2010, er mwyn cyd-fynd ag amrywiaeth o ddigwyddiadau yn yr haf yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd rhan ynddynt. Lluniwyd y rhaglen Pleidleisiwch 2011 er mwyn gwneud cynifer â phosibl o bobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd i fynegi eu barn eleni - yn benodol drwy etholiad y Cynulliad ar 5 Mai a'r refferendwm ar bwerau deddfu ym mis Mawrth. Mae hyn wedi cynnwys lansio amrywiaeth o gyhoeddiadau a defnyddiau marchnata deniadol, fideos, ymgyrch fywiog yn ymwneud â chysylltiadau cyhoeddus, ymgyrch hysbysebu ar-lein, a nifer o ddigwyddiadau, gweithdai a seminarau ar bynciau cysylltiedig. Bu bws Allgymorth y Cynulliad ar daith**

ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol cyn y cyfnod moratoriwm o 28 diwrnod ar gyfer y refferendwm ar 3 Mawrth. Ers y refferendwm mae'r daith wedi ailgychwyn, a bydd y bws wedi ymweld â phob un o'r 40 o etholaethau cyn y diddymiad.

1.2 Refferendwm

Mae gan Gomisiwn y Cynulliad gyfrifoldeb a phwerau statudol i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o etholiadau ac o'r system bresennol, neu unrhyw system sydd i ddod o lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Cawsom ein cynrychioli ar ddau gyd-weithgor: grŵp Prosiect y Refferendwm, gyda chynrychiolwyr o Swyddfa Cymru, y Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru, Swyddfa'r Cabinet a Bwrdd yr Iaith Gymraeg; a Grŵp Cyfathrebu'r Refferendwm. Datblygwyd cysylltiadau penodol â'r Comisiwn Etholiadol, a buom yn gweithio gyda'n gilydd i rannu gwybodaeth a llwyfannau.

Bu Comisiwn y Cynulliad hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Etholiadol i ganiatáu defnyddio'r Senedd ar gyfer y cyfrif canolog a chyhoeddi'r canlyniad cenedlaethol. O fewn munudau i'r canlyniad terfynol, roedd taflenni dwyieithog esboniadol – 'Pwerau pellach: esbonio canlyniad y refferendwm' - ar gael yn y Senedd ac roedd y canlyniad cadarnhaol, ynghyd â rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygai, i'w weld ar wefan y Cynulliad.

1.3 Canolfan Llywodraethiant Cymru

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, cadarnhaodd y Comisiwn ei gefnogaeth i'r egwyddor y dylai Canolfan Llywodraethiant Cymru gael ei lleoli mewn swyddfa sydd fel arall yn wag yn y Pierhead, yn gyfnewid am raglen o ddigwyddiadau wedi ei diffinio'n glir. Ers hynny rydym wedi cyfarfod â'r Ganolfan i drafod yn fanwl ei hanghenion llety a'r llawr swyddfa y gallai ei gael ar osod. Trafodwyd hefyd sut y bydd y partneriaid y Datganiad Dydd Gŵyl Ddewi yn cyfrannu at ddatblygu rhaglen uchelgeisiol o ddigwyddiadau wedi ei chysylltu'n glir â datblygu busnes y Cynulliad a chyfrannu at hynny. Cynigiwn y dylai'r rhaglen o ddigwyddiadau gael ei hystyried i'w chymeradwyo gan y Comisiwn mor gynnar â phosibl yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

1.4 **Y diweddaraf am fusnes y Cynulliad**
Cafodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 Gymeradwyaeth Frenhinol ar 9 Chwefror, ac mae'r Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) wedi ei gyflwyno ar gyfer ei ystyried yng nghyfarfod y Cyfrin Gyngor ym mis Mawrth (16).

Cafodd Mesur arfaethedig Ann Jones AC ar Ddiogelwch Tân yn y Cartref (Cymru) 2011 ei gytuno yn y Cynulliad ar 16 Chwefror a disgwylir ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyfrin Gyngor ym mis Ebrill (7).

Mae pedwar Mesur arfaethedig ar y gweill ar hyn o bryd, ar bwriedir i bob un ohonynt gwblhau Cyfnodau 3 a 4 erbyn diwedd mis Mawrth. Cyn belled na wneir dim sylwadau ynglŷn â'r cymhwysedd deddfwriaethol yn ystod y cyfnod hysbysiad o 4 wythnos, cânt eu cyflwyno yng nghyfarfod y Cyfrin Gyngor ym mis Mai (10).

Cafodd yr adroddiad ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2011 ei gyhoeddi ar 4 Chwefror. Y cam nesaf fydd ystyried Gorchymyn drafft yn y Cyfarfod Llawn. Nid oes dyddiad wedi ei drefnu hyd yma.

Hyd yn hyn mae cyfanswm o 16 o Fesurau wedi cael Cymeradwyaeth Frenhinol a 15 o Orchmynion wedi cael Cydsyniad Brenhinol yn y Trydydd Cynulliad.

1.5 **Cyllideb y Comisiwn 2010-11**
Mae'r adroddiad diweddaraf sy'n cynnwys y cyfnod hyd at ddiwedd mis Chwefror 2011 yn dangos bod y gwariant gwirioneddol 1 y cant yn llai na'r rhagolwg am y flwyddyn hyd yn hyn. Disgwylir i'r alldro diwedd blwyddyn ar gyfer 2010-11 fod o fewn 1 y cant i gyllideb y Comisiwn o £46.227 miliwn. Mae gwariant ar brosiectau yn parhau i fod y prif ffactor sy'n peryglu cyrraedd y sefyllfa diwedd blwyddyn, ond mae camau wedi eu cymryd yn ystod yr wythnosau diwethaf i sicrhau'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer 2010-11. Mae'r camau hyn yn canolbwyntio ar gydbwyso gwariant a gaiff ei ddal yn ôl tan 2011-12 drwy ddod â gwariant o 2011-12 ymlaen.

1.6 Y Pwyllgor Archwilio - 17 Chwefror 2011

Cyfarfu Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad ar 17 Chwefror 2011. Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredu gyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r cynnydd a'r gwaith sy'n ofynnol yn y dyfodol ar gaffael a rheoli contractau, ynghyd ag ystyried dau Adroddiad Archwilio Mewnol ar y maes pwnc hwn. Cefnogodd y Pwyllgor y farn fod angen integreiddio'r polisi ar gaffael â rheoli contractau. Trafododd y Pwyllgor y ddau Adroddiad Archwilio mewnol; yr adroddiad ar reoli contract Darlledu Barcud Derwen, ac adolygiad mewnol cyffredinol o Reoli Contractau o fewn y sefydliad.

Dangosodd yr arolwg o'r Contract Darlledu fod y sefydliad wedi gweithredu'n fuan i ddelio â'r broblem, drwy gymryd camau i ddod â'r contract i ben a chyflogi cyflenwyr newydd cyn i hyn effeithio ar y gwasanaeth, a chydnabuwyd hynny gan y Pwyllgor. Tynnwyd sylw at argymhellion eraill yn ymwneud â natur amlddisgyblaethol rheoli contractau; yr angen am asesiadau risg ac asesiadau ariannol cadarn; a sicrhau bod rheoli contractau yn rhan o amcanion rheoli perfformiad i staff, a chytunwyd ar yr argymhellion hynny. Roedd yr ail adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd dull holistaidd o reoli contractau.

Croesawodd y Pwyllgor y ffaith fod camau pellach yn cael eu cymryd gan reolwyr, ond pwysleisiwyd ei bod yn hanfodol i Gomisiwn y Cynulliad nawr weithredu gwelliannau gwirioneddol a'u hymgorffori.

1.7 Strategaeth TGCh

Mae'r Cynulliad yn ymfalchio ei fod ar flaen y gad o ran defnyddio technoleg mewn busnes seneddol, ac mae'n awyddus i barhau i ddangos yr arweiniad hwn drwy fwy o ymgysylltu ac arloesi. Mae Grŵp Strategaeth TGCh wedi ei ffurfio i ystyried y dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh pan ddaw'r contract Merlin i ben yn 2014. Yn y lle cyntaf bydd y grŵp:

- yn diffinio nodau lefel uchel ar gyfer darparu TGCh yn y dyfodol, a bydd yn ystyried y risgiau;

- yn edrych ar y dewisiadau rydym eisoes wedi eu diffinio, i weld ai dyma'r rhai cywir ac a ellid ychwanegu rhai eraill;

- yn ystyried y cyngor allanol rydym yn ei grynhoi ar faterion fel cost, capasiti a'r fframwaith cyfreithiol; ac

- ar sail hyn yn gosod amserlen a phroses realistig ar gyfer y gwaith y mae angen ei wneud, gan amcangyfrif yr adnoddau sy'n angenrheidiol i'w wneud.

1.8 Y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau dwyieithog
Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd, cytunodd y Comisiwn i ymgynghori ar Fesur Gwasanaethau Dwyieithog a chynllun Gwasanaethau Dwyieithog newydd yn gynnar yn 2011. Mae'r rhan helaethaf o'r gwaith ar y Mesur arfaethedig a'r cynllun wedi ei gwblhau. Yn ystod yr amser hwn, rhoddwyd ystyriaeth bellach i briodoldeb ymgynghori yn ystod y diddymiad ar fater y mae gan y cyhoedd cymaint o ddiddordeb ynddo. Oherwydd hyn, a'r ffaith na fydd Aelodau'r Cynulliad gennym yn ystod y diddymiad - y mae'r cynllun a'r gwasanaeth yr arfaethir yn cael ei ddarparu ar eu cyfer - ailystyriwyd y ffordd fwyaf priodol i ni weithredu yn y darn gwaith pwysig hwn. O gofio hynny, argymhellwn y dylai'r Comisiwn oedi cyn cychwyn y broses o ymgynghori â'r cyhoedd tan ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Argymhellwn hefyd y dylai gwaith ar y Mesur, ar y dogfennau cefnogi ac ar y cynllun gwasanaethau dwyieithog barhau yn y cyfamser.

1.9 Gwaith cadwraeth ar y gwaith carreg a terracotta yn y Pierhead
Roedd yr Archwiliad Pedair Blynedd o'r Pierhead a wnaed yn 2009 wedi nodi bod angen gwneud arolwg cyflwr manwl ac adroddiad cadwraeth ar y tu mewn a thu allan yr adeilad, a datblygu argymhellion a manylion ar gyfer rhaglen o waith trwsio. Penodwyd Nimbus, sy'n gontractwr cadwraeth arbenigol, i wneud yr ymchwiliadau hyn, a chafwyd ei adroddiad a'i argymhellion ym mis Chwefror 2010. Er bod yr adroddiad wedi nodi bod y gwaith briciau, terracotta a charreg yn y Pierhead mewn cyflwr da ar y cyfan, mae nifer o ddiffygion mewn cysylltiad â setliad yr adeiladwaith, a'r ffaith fod uniadau sydd wedi agor yn golygu bod dŵr wedi

dod i mewn ar bob un o wynebau'r adeilad mewn amrywiol fannau. Yn ogystal â'r ffaith bod dŵr yn dod i mewn a bod tamprwydd yn yr adeilad, nodwyd bod posibilrwydd, os na fydd y namau hyn yn cael eu cywiro, y bydd yr unedau terracotta allanol yn dioddef o ddadlaminadu, o ganlyniad i halen mwynau hydawdd yn ffurfio crisialau o fewn y gwaith briciau wrth i'r dŵr sychu ac anweddu. Os bydd craidd y wal yn parhau'n wlyb, gallai achosi i unedau terracotta gerllaw symud, gan eto ychwanegu at broblemau'r dŵr sy'n dod i mewn ac at ddirywiad y gwaith briciau. Roedd yr adroddiad yn nodi rhestr o dasgau ar gyfer cywiro'r problemau y dylid eu cyflawni rhwng mis Mawrth a mis Medi. Nodwyd y gellid gwneud y gwaith allanol bob yn gam dros gyfnod o dair blynedd, a'r cyfnod cyntaf yn delio â'r wyneb deheuol lle mae'r dirywiad ar ei waethaf. Ar ôl cwblhau'r gwaith allanol, dylid mynd i'r afael â'r rhaglen waith ar y tu mewn.

Gwahoddwyd tendrau cystadleuol gan gontractwyr cadwraeth arbenigol ym mis Rhagfyr 2010, a'r bwriad oedd dechrau ar gam 1 ym mis Ebrill 2011. Dyfarnwyd y contract i St Blaise a rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau yn ystod y tair i bum wythnos nesaf. Yn y cyfamser, mae rhai darnau o'r wyneb blaen a'r wyneb deheuol wedi disgyn. Mae St Blaise wedi gwneud archwiliad manwl ac wedi tynnu i ffwrdd rannau eraill a oedd yn rhydd. Mae'r cwmni hefyd wedi argymell gosod cysgodfan at y drws blaen yn ogystal â ffens heras i ddarparu man atal er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ddiogel tra bydd y gwaith yn dechrau a sgaffaldiau'n cael eu codi.  Mae St Blaise wedi dweud bod colli'r ffabrig yn ddiweddar a'r dirywiad sydyn mewn elfennau fel y pwyntio a malurio wynebau sy'n agored i'r tywydd yn debygol o fod wedi dwyshau oherwydd y tywydd eithriadol ar ddiwedd y llynedd.

1.10 Paratoadau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad

Mae paratoadau'r wythnosau olaf nawr wedi dechrau. Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi holiadur terfynol i ofyn am wybodaeth sy'n cynnwys yr holl ddarnau olaf o wybodaeth y mae arnom eu hangen gan Aelodau a'u staff. Bydd hyn yn sicrhau bod y trawsnewid yn digwydd mor ddidrafferth â phosibl. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer trefniadau

TG a theleffon. Mae staff y Grŵp sy'n arwain wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn, ac maent yn helpu sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei dychwelyd atom erbyn 18 Mawrth, mewn pryd i sicrhau bod y trefniadau'n cael eu gwneud. Bydd staff y Cynulliad hefyd yn pwyso am gwblhau'r holiaduron.

Siom oedd gweld, er bod canllaw cynhwysfawr iawn ar y diddymiad wedi ei gyhoeddi cyn y Nadolig, fod rhai Aelodau wedi eu synnu gan y goblygiadau iddynt hwy a'u staff. Rydym yn parhau i ddefnyddio pob dull cyfathrebu posibl i esbonio'r goblygiadau a'r rhesymau dros y camau sy'n cael eu cymryd, gan gynnwys trafodaethau gyda'r grŵp cyfeirio Aelodau, negeseuau e-bost, cyhoeddusrwydd ar y ddalen newyddion ac ymweliadau â chyfarfodydd Grŵp yn ôl y galw.

1.11 Celf ar ystad y Cynulliad

Mae'r arlunydd o Gymru, Joseph Galvin, wedi cysylltu â ni gan ei fod yn dymuno cael comisiwn ar gyfer gwaith celf. Ei gynnig yw paentio'r Cynulliad mewn sesiwn er mwyn darparu cofnod o rywfaint o fywyd a hanes y Cynulliad ar gyfer pobl Cymru. Nid yw'r arlunydd yn gofyn am ffi am ei waith, ac mae'n dymuno rhoi'r darlun i'r Cynulliad i'w arddangos ar yr ystâd.

Mae staff y Comisiwn wedi arolygu gwaith yr arlunydd yn erbyn y meini prawf cyfredol ar gyfer arddangos gwaith celf ar yr ystâd, ac maent yn ystyried y gallai fod yn ychwanegiad addas. Fodd bynnag, ni ellir cadarnhau hyn nes bydd y darlun wedi ei gwblhau, ac mae'r arlunydd wedi cael gwybod hynny.

Mae oriel o waith yr arlunydd i'w gweld yn http://josephgalvinartist.wordpress.com/gallery-2/